PROSIECT WICKED

ADRODDIAD CHWARTER BLWYDDYN, MAWRTH - MEHEFIN '07

TIR COED

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

COMIC RELIEF

The Princess Royal Trust for Carers

Hilton Foundation

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cefndir

Mae prosiect WICKED (Woodland Initiatives – a Catalyst for Kids' Education & Development) yn rhedeg am dair mlynedd, o fis Mawrth 2007 i fis Chwefror 2010. Amcan y prosiect yw darparu hyfforddiant coedwigaeth a gweithgareddau hamdden cysylltiedig i ieuenctid pedair sir wledig: Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Gweithredir hyn drwy dair menter wahanol:

- **Cynllun Mês -** ar gyfer gofalwyr ifanc, rhwng 11-19 mlwydd oed, sydd yn gofalu am aelod(au) sâl neu anabl o'r teulu.

- **Cynllun Coed Call -** Bydd y prosiect hwn yn arwain at greu rhaglen hyfforddi eang yn seiliedig ar weithgareddau coedwigaeth ar gyfer grwpiau o hyd at chwech person, 14-16 mlwydd oed, sydd wedi cael, neu mewn perygl o gael, ei diarddel o'r ysgol, a sy'n anodd ei lleoli mewn rhaglen profiad gwaith.

- **Cynllun Gweithio'r Goedwig –** Bydd y cynllun hwn yn darparu hyfforddiant yn seiliedig ar waith i bobol ifanc, 16-19 mlwydd oed, sy'n ddi-waith a ddim mewn addysg na hyfforddiant.

Dros y cyfnod o 3 mlynedd mi fydd tua 600 o bobol ifanc yn elwa'n uniongyrchol drwy'r cynllun WICKED. Yn ogystal, fe fydd tua 40 Swyddog Ieuenctid a staff cynhaliol sy'n gweithio gyda'r grwpiau yn derbyn hyfforddiant mewn sgiliau coedwigaeth gwyrdd, sgiliau Ysgol Goedwig, ac mewn dulliau arwain sialensi goroesiad, yn dibynnu ar natur eu grwpiau.

Mae prosiect WICKED yn gael ei weithredu gyda chefnogaeth ariannol y canlynol:
Cronfa Loteri Fawr (Rhaglen "Help Llaw");
Comic Relief (a weinyddir gan Ymddiriedolaeth y Tywysog i Ofalwyr Ifanc);
Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
Sefydliad Hilton yn y Gymuned;
Gwirfoddolwyr y Mileniwm;
Ymddiriedolaeth Dulverton.

Cyflwyniad

Fe gyflawnwyd y canlynol yn ystod wythnosau cyntaf WICKED:

- Fe ailymwelwyd â sefydliadau ieuenctid â ddangosodd ddiddordeb yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect,
- Fe gysylltwyd a sefydliadau eraill o fewn y siroedd perthnasol sydd hefyd yn gweithio â phobol ifanc,
- Fe ymgynghorwyd â cyflenwyr gwasanaeth potensial a gweithwyr cynhaliol drwy ffurflen 'dangos diddordeb',
- Fe luniwyd pamffledi i hyrwyddo prosiectau 'Mes' a 'Gweithio'r Goedwig' i bobol ifanc,
- Fe gasglwyd ffurflenni adborth – yn ymwneud ac allbwn y prosiectau – ar gyfer y 3 prosiect,
- Fe brynwyd offer llaw a theclynnau angenrheidiol ar gyfer y tri prosiect,
- Fe brynwyd 2 gamera fideo i'n galluogi i gasglu adborth,
- Fe osodwyd systemau disg galed wrthgefn yn swyddfeydd Tir-Gofal,
- Fe brynwyd meddalwedd 'Quickbooks' i gynnal monitro ariannol,
- Rydym wedi agor cyfri CAF Aur i wneud y mwyaf o gyllid Tir Coed yn ystod oes prosiect WICKED.
- Mae Tir Coed wedi cofrestru fel cyflenwr Rhwydwaith Coleg Agored i sicrhau achrediad i'r bobol ifanc sydd yn cymeryd rhan yn y mentrau Coed Call a Gweithio'r Goedwig.

Mae tîm Tir Coed wedi bod yn cyfarfod yn fisol, dan arweiniad Ysgrifennydd y cwmni, John Wilding, i drafod datblygiad y prosiect ac unrhyw faterion sy'n codi.
Ers Ebrill y 1af, 2007, mae Tir Coed wedi cyflogi Swyddog Gweinyddol rhan-amser am 8 awr yr wythnos. Mae Chris Fletcher wedi gafael yn awenau gweinyddu ariannol y prosiect, ac mae eisoes wedi profi ei bod o ddeunydd sylweddol i dîm Tir Coed. Oherwydd gor-amcaniad tra'n llunio amcanion costau Yswiriant Cenedlaethol y Swyddogion Prosiect, mae yna arian dros ben yn y cyllid. Mae'r Cronfa Loteri Fawr wedi cytuno fod hawl gennym i ddefnyddio'r arian hwn i gynyddu oriau gwaith y Swyddogion Prosiect i 30 awr yr wythnos (yn hytrach na'r 26 a amcanwyd). Bu'r Swyddogion dan straen i reoli pob agwedd o'r prosiect o fewn yr oriau gwreiddiol, ac felly mae'r oriau ychwanegol hyn yn werthfawr iawn. Yn wir, erbyn ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r ddau swyddog wedi gweithio sawl awr yn ychwanegol. Mi fydd y ddau yn cymeryd mantais o'r oriau hyn mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl.

Isod mae crynodeb o'n prif weithgareddau yn ystod y chwarter cyntaf hwn, wedi ei categoreiddio yn ôl tair menter y prosiect WICKED. Mae'n cynnwys ein cyraeddiadau yn gymharol a'n targedau ar gyfer y gweithgareddau (a gasglwyd drwy sawl dull, gan gynnwys ffurflenni hunan asesiad, adborth llafar, adborth hyfforddwyr a tystiolaeth ffotograffig), yn ogystal a adborth cyffredinol.

Cynllun Mês:

Mae gweithgareddau'r fenter hon wedi cychwyn ym mhob sir, ag eithrio Sir Benfro, yn ystod y chwarter cyntaf. Oherwydd problemau ariannol, nid yw Gofalwyr Ifanc Sir Benfro mewn sefyllfa i gynnal gweithgareddau ar gyfer ei gofalwyr ifanc, ond, gobeithiwn weld y sefyllfa'n gwella yn fuan.
Eto'i gyd, mae'r niferoedd o bobol ifanc sy'n cymeryd mantais o'r mentrau wedi bod yn is na a ragwelwyd gan y sefydliadau gofalwyr ifanc. Felly, wedi ymgynghori â swyddogion Gofalwyr Ifanc a phobol ifanc, ac er mwyn peidio eithrio pobol ieuanc o weithgareddau prosiect WICKED, fe benderfynwyd yn ystod cyfarfod tîm mis Mai i ganiatáu plant mor ifanc ac 8 mlwydd oed i ymuno a'r gweithgareddau. Mi gytunwyd hyn a'r Cronfa Loteri Fawr.
Yn ogystal, yn dilyn cyngor y Swyddogion Gofalwyr Ifanc, mi benderfynwyd peidio cynnig gweithgareddau am gyfnod hirach na dau ddiwrnod yn olynol gan ei bod hi'n anodd i ofalwyr neilltuo amser hirach o'i cyfrifoldebau gofalu.

Powys

Sesiynnau Ysgol Goedwig yng Nghoed Cefn, ger Crossgates.
Fe arweiniwyd gan Nicky Warwick, ac fe gefnogwyd gan aelodau o grŵp Ysgol Goedwig Canolbarth Cymru.
Ebrill 10fed, 11eg, 12fed, 21ain, 28ain, a Mai'r 5ed, 2007.

Grŵp cymysg o ran oedran, profiad a gallu, oedd grŵp Gofalwyr Ifanc canolbarth Powys. Roedd y mwyafrif wedi bod i sesiynau Ysgol Goedwig o'r blaen ac felly yn ymwybodol o beth i ddisgwyl.
Poblogaeth adar Cefn Coed oedd ffocws y rhan fwyaf o'r gweithgareddau, bu hyn yn cynnwys gemau gwrando yng nghilfa'r Eglwys a thrwsio rhai blychau adar oedd wedi eu difrodi. Cafodd pawb y cyfle i ddefnyddio dewis eang o offer llaw, o blicwyr tatws i bilygau, ac i ddatblygu ei syniadau eu hunain. I rai, mi arweiniodd hyn i adeiladu tŷ adar neu gordd, ac mi ganolbwyntiodd eraill ar y crefftau creu tân gwersyll oedd ar gael. Bu'r grŵp yn hoff iawn o goginio dros y tân, a bu hyn yn bwysig i greu awyrgylch ddiogel, anffurfiol i'r grŵp i ymlacio a rhyngweithio – mi ddysgodd pawb lawer am ei gilydd.
Yn ddibynnol ar ei maint, mi orffennwyd sawl un o'r prosiectau o gwmpas y tân, pryd oedd cyfle i'r grŵp drafod eu gwaith, gan annog rhai i gesio creu rhywbeth roeddent yn flaenorol yn amau eu gallu i'w gyflawni.

O'r 7 a cyfranogodd, mi fu 2 berson ifanc yn bresennol ym mhob sesiwn, mi fethodd 4 un sesiwn, ac bu 1 ddim ond yn bresennol am 2 sesiwn.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw.	Do, mi greodd y 7 cyfranogwr eitem o grefft llaw	
Mae'r cyfranogwyr yn medru cyflwyno eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do, recordiad fideo o'r bobol ifanc yn disgrifio eu cynnyrch a'r dull a ddefnyddiwyd i'w creu	

90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, cyfartaledd presenoldeb 90% o'r ymgeiswyr = 88.6%	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn dangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, mi lwyddodd pob cyfranogwr i enwi un rhywogaeth o goed	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail	Do, mi lwyddodd pob cyfranogwr i enwi un math o ffawna.	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o feunydd i'r amgylchfyd	Roedd 71% yn ymwybodol fod coedwigoedd o fudd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Na, dim ond 57% oedd yn teimlo'n hapusach	4 – hapusach 2 – dim newid 1 – llai hapus
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, 71% eisiau gwneud mwy o weithgareddau coed,	5 – ie 2 - efallai

<u>Adborth</u>

Hoffterau - *"Gweithio gyda phobol newydd."*
"Popeth. Fe fwynheais bopeth."
"Gwneud fy ngordd."
"Fe fwynheais y gweithdy coed a bwyta malws melys a chynnau tan."
"Cynnau tan a gwneud cleddyfau."

Anhoffterau- *"Y tai-bach."*
"Colli un sesiwn dydd Sadwrn."
"Cerdded."
"Gwneud tai adar."

Beth wnaethoch chi? –
"cawellu breuddwyd, tai adar, llawer o sŵn, gordd, bwa-saeth, gwaywffon anferth, cuddfan, ffon gerdded, cleddyf."

Mae gofalwyr ifanc Powys wedi mynychu gweithdy 3-diwrnod yn ymwneud a Chelf yn y Goedwig. Bydd adroddiad cyflawn ar ganlyniadau'r gweithgareddau hyn yn rhan o adroddiad y chwarter nesaf.

Ceredigion

Sesiynau Ysgol Goedwig yng Nghanolfan Ymwelwyr y Comisiwn Coedwigaeth, Bwlch Nant yr Arian.
Fe gynhaliwyd y sesiynau hyn mewn partneriaeth a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Fe'i harweiniwyd gan Leigh Denyer (Swyddog Addysg y Comisiwn Coedwigaeth), gyda chymorth Judith Bray (arweinydd cymwysiedig Ysgol Coedwig).
Mai 30ain, 31ain, Mehefin 1af, 16rg, 23ain.

Yn anffodus, niferoedd prin a fynychodd y sesiynau. Mae'n ymddangos fod 3 prif reswm dros hyn:

1.Roedd y term "Ysgol" Goedwig yn awgrymu i sawl person mai estyniad o waith dosbarth yr ysgol oedd y gweithgareddau.
2. Roedd mynuchi am dri diwrnod yn olynol yn straen ar amser a chyfrifoldebau'r gofalwyr.
3. Bu problemau â'r trafnidiaeth na ddaeth i sylw'r Swyddog Prosiect tan y sesiwn gyntaf.

Eto i gyd, bu'r 2 ofalwr ifanc a fynychodd y sesiynau yn frwdfrydig iawn ac fe fwynheuont y gweithgareddau. Fe ymunodd 2 ofalwr ifanc arall â'r grŵp erbyn y 4ydd sesiwn; yn anffodus bu rhaid gohirio'r 5ed sesiwn oherwydd glaw trwm a gwyntoedd cryfion.

Gwersi:

a) Dewis teitl newydd gogyfer y sesiynau Ysgol Goedwig, e.e. Dyddiau Hwyl y Goedwig!
b) Peidio cynnig mwy na 2 sesiwn yr wythnos, gorau oll eu bod ddim ar ddyddiau olynol;
c) Cynnig cymorth a chostau teithio os yw hyn y atal rhai rhag mynychu.

Fe ysgrifennodd un o'r Gofalwyr Ifanc oedd wedi cymeryd rhan ym mhob sesiwn lythyr i Reolwr Gofalwyr Ifanc Ceredigion i gynnig diolch am ganiatáu i'r sesiynau fynd yn eu blaen, er mai dim ond dau berson oedd yn bresennol. Roedd hi o'r farn bod y Gofalwyr eraill wedi colli profiad gwych.

Oherwydd fod y sesiwn derfynol wedi cael ei gohirio, ni lwyddodd y Swyddog Prosiect ddosbarthu na chasglu rhan 2 y ffurflen hunan asesiad a'r ffurflen adborth. Felly, mi fydd tabl o'r canlyniadau ar gyfer y gweithgareddau hyn yn adroddiad y chwarter nesaf.

Sir Gâr:

Gweithgareddau Celf yn y Coed am 2 ddiwrnod yn y Stiwdio Gelf Werdd, Coetiroedd Troserch, Llanarthne, ger Llanelli. Ebrill 10fed & 11eg, 2007.
Fe arweiniwyd gan Ada Garton a Greg Wilinson.

Bu 7 person ifanc o Ofalwyr Ifanc Sir Gâr yn bresennol ar gyfer y weithgaredd, bu 6 yn bresennol am y ddau ddiwrnod.
Roedd y gweithgareddau yn eang – o adeiladu cuddfannau i waith helyg.
Fe gafodd y ddau grŵp gyfle i ddefnyddio nifer helaeth o offer llaw tra'n adeiladu cuddfannau, adeiladu rafft, a gweithio ar yr helyg. Fe rannwyd y grŵp yn 2; bu un yn

dylunio celf helyg yn y stiwdio ac fe archwiliodd y llall y goedwig. Gan fo'r gweithgareddau yn hollol wahanol, roedd rhai yn ffafrio un dros y llall.
Cynigiodd y gweithgareddau hyn gyfle i'r Gofalwyr Ifanc ddod i adnabod ei gilydd yn well a datblygu eu rhyng-berthnasau. Roedd yr awyrgylch brydferth yn hwyluso'i trafodaethau ynglŷn â'u swyddogaethau fel Gofalwyr.

O'r 7 cyfranogwr, fe ddychwelodd 6 ar y diwrnod canlynol. Nid oedd yn bosibl derbyn adborth gan y Gofalwr a oedd ond yn bresennol ar y diwrnod cyntaf; felly, mae'r tabl isod wedi ei seilio ar adborth 6 cyfranogwr.

NÔD	**CYRHAEDDIANT**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem o grefft llaw.	Do, mi greodd pob cyfranogwr eitem o grefft llaw.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru cyflwyno eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do. Mae tystiolaeth fideo o'r bobol ifanc yn disgrifio beth maent wedi ei greu a'r dull a ddefnyddiwyd.	?? Rwyf o'r farn bod angen ailystyried y targed hwn!!
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, bu 86% o'r cyfranogwyr yn bresennol ar gyfer 100% o'r gweithgareddau	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, mi lwyddodd pob un i enwi o leiaf un math o goeden	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, mi lwyddodd pob un i enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o ddeunydd i'r amgylchfyd	Oeddent, roedd pob cyfranogwr yn ymwybodol o un modd yr oedd coed o ddeunydd i'r amgylchfyd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Do, roedd 66% o'r cyfranogwyr yn teimlo'n hapusach	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Na: dim ond 50% oedd a awydd i ddilyn mwy o weithgareddau coedwig	3 – Byddwn 2 – Falle 1 - Na

Adborth

Hoffterau - *“Adeiladu y cysgod”.*
“Popeth.”
“Gwaith Helyg”.

Anhoffterau - *“Cerdded lan rhyw.”*
“Adeiladu y cysgod.”
“Dim byd.”

Beth wnaethoch chi? –
“Cysgod a seddi.”
“Pethau helyg”
“Pêl-droed a lamp”

Cynllun Gweithio'r Goedwig:

Mae'r fenter hon ar gyfer pobol ifanc, 16-19 mlwydd oed, sydd ddim mewn addysg, swydd, nac hyfforddiant, ac mae tair rhan iddi:
Rhan 1 – 12 sesiwn blasu i Waith Coed Irlas, Adeiladu Cymunedol, Goroesi yn y Goedwig, Rheoli Coetiroedd, a Gweithgynhyrchu Coed;
Rhan 2 – rhaglen o wirfoddoli sy'n cynnig y cyfle i ddatblygu profiad pellach mewn maes penodol sydd o ddiddordeb i'r pobl ifanc;
Rhan 3 - Bydd Tir Coed yn ymgeisio i drefnu lleoliad gwaith i'r bobol ifanc mewn swydd berthnasol a gyda chyflogwr addas.

Hyd yn hyn, sefydlu'r fenter hon sydd wedi profi gymhlethaf a fwyaf costus o ran amser o'r 3 menter. Ond, dros y tymor hir, mae'n bosib mai hon fydd fwyaf gwerthfawr o ran cynnig llwybr gyrfa i bobl ifanc.
Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd i bobl ifanc, 16 i 19 mlwydd oed, oedd ddim mewn addysg, swydd nac hyfforddiant, gael ei harwain at y prosiect drwy Swyddogion Gyrfa Cymru, nid yw'r raddfa o gefnogaeth wedi bod yn unffurf. Nid yw gwybodaeth ynglŷn â'r prosiect wedi ei ddosbarthu'n fewnol yn effeithlon o fewn ambell i Sir.
Hefyd, yn ystod y cyfnod ymgynghori, bu Tir Coed dan yr argraff y byddai swyddogion Gyrfa Cymru ar gael i fynychu rhai o'r sesiynau cynnar a gweithredu fel Gweithwyr Cynorthwyol. Roeddem yn ffodus i gael swyddogion o Sir Gâr a Cheredigion am rai o'r sesiynau blasu, ond erbyn i'r rhaglenni gychwyn roedd cefnogaeth staff Gyrfa Cymru yn llai na'r disgwyl.
Canlyniad hyn oedd i Swyddogion Tir Coed orfod chwilio am gyfranogwyr, ynghŷd â chwilio am Weithwyr Ieuenctid/Cynorthwyol i gefnogi'r bobol ifanc tra'n mynychu'r gweithgareddau. Mewn rhai achosion bu'n rhaid i staff Tir Coed weithredu fel Gweithwyr Cynorthwyol.

Fe weithredwyd y cynllun ym mhob un o'r siroedd, er i'r amser paratoi fod yn gyfyng, a bu amrywiaeth yn y llwyddiant i ddenu pobl ifanc i'r cynllun.

Powys:

Cychwynnodd menter Gweithio'r Goedwig yn wythnos olaf mis Mehefin. Mi fydd adroddiad llawn o weithgareddau ac allbwn y rhaglen yn yr adroddiad chwarter nesaf.

Ceredigion:

Bu menter Gweithio'r Goedwig Ceredigion yn llwyddiant mawr. Roedd 8 cyfranogwr – y nifer mwyaf a allai fynychu. Bu Gwyneth yn ddigon ffodus i ffurfio cysylltiad a rhaglen 'NEETs' yn ardal Llandysul; cyfeiriwyd 5 person ifanc i'r sesiynau cyflwynol drwy'r prosiect hwn, ac, yn ogystal, fe gynigwyd cymorth gwerthfawr gan Steve Parkin, Arweinydd Ieuenctid Tysul, am y 12 sesiwn blasu.
Fe gyfeiriwyd 1 person atom drwy Yrfaoedd Cymru, ac fe ymunodd 2 ar ei liwt ei hunain.
Fe anfonwyd un Swyddog gan Yrfaoedd Cymru Ceredigion i weithio fel Swyddog Cynhaliol am 6 sesiwn. Bu hyn yn werthfawr iawn, yn galluogi'r Swyddog i drafod diddordebau unigol y bobol ifanc a datblygu perthynas a chyswllt hirdymor gyda nhw.
Yn ogystal, fe fu Gweithwyr Cynhaliol o Ieuenctid Tysul a staff annibynnol yn mynychu'r sesiynau.

Y sesiynau blasu:

1. **2 ddiwrnod o Waith Coed Irlas** – yng Nghoed Tŷ Llwyd, ger Aberystwyth, ac fe'i arweiniwyd gan Bob Shaw a Tont Eams.

Fe adeiladodd pob cyfranogwr stôl dair-coes; fe ddangosodd sawl person sgil naturiol gyda'r tyrn polyn gan gynhyrchu coesau crefftus iawn. Yn ogystal, dewisodd y bobol ifanc eitem arall roeddent am ei greu. Fe luniwyd batiau rownderi gan rai, morthwylion pren gan eraill, handlen cŷn gan un, teclynnau pysgota gan eraill, ac fe adeiladodd un focs. Roedd pawb yn falch iawn o'r hyn oeddent wedi'i gyflawni dros y 2 ddiwrnod.

<u>Adborth y Bobol Ifanc:</u>

Hoffterau- *"Popeth"*
"Bod yn y goedwig"

Anhoffterau- *"Codi'n gynnar"*
"Dim byd, roedd popeth yn hwyl"

2. Rhaglen 4-diwrnod Adeiladu yn y Gymuned – fe adeiladwyd man eistedd a tho trawiadol gan y bobol ifanc yng nghoed Maiddie B. Goddard, safle yr Ymddiriedolaeth Natur, ger Aberteifi. Fe arweiniwyd y sesiwn gan Andy Bakewell a Trystan Merry-Howe.

Er fod y tywydd yn eu herbyn, fe weithiodd pawb yn anhygoel o galed fel tîm i gwblhau'r prosiect hwn. Fe'i haddysgwyd sut i fesur pren, sut i ddefnyddio llif law, cŷn, dril trydanol, ynghyd ag offer llaw eraill. Fe ofynnodd rhai am ganiatâd i gerfio eu henwau ar y strwythur, ac fe gyflawnwyd hyn yn ofalus ac yn gelfydd.

<u>Adborth:</u>
Hoffterau - *"Gosod y to"*
"Cwblhau'r prosiect"
"Popeth"

Anhoffterau - *"Pan oeddwn yn sâl; roedd y gweddill yn wych'*
"Cario'r pren i'r safle"
'Y glaw"

3. Goroesi yn y Goedwig, 2-ddiwrnod – fe arweiniwyd y weithgaredd hon gan Mark Hanford o 'Outlook Expeditions', ac fe'i cynhaliwyd yng Nghoedwig y Myherin, yng Ngogledd-ddwyrain Ceredigion, gyda chaniatâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Adeiladu lloches am y noson oedd prif weithgaredd y diwrnod cyntaf. Fe weithiodd y bobol ifanc mewn timau i adeiladu 3 chysgod – rhai'n defnyddio llenni plastig i'w hamddiffyn rhag yr elfennau; eraill yn defnyddio canghennau pinwydd a dail fel amddiffyniad naturiol – fe gadwodd pawb yn sych dros nos!
Fe rannwyd y tasgau o dyllu twll tŷ-bach, a pharatoi swper (pasta a Bolognese Quorn) dros dân gwersyll gan y bobol ifanc. Treuliodd un person (sydd yn dioddef o ADHD) y rhan fwyaf o'r prynhawn yn torri coed ar gyfer y tân.
Roedd diwrnod 2 yn llai llwyddiannus. Roedd y bobol ifanc wedi blino; y mwyafrif wedi aros yn effro yn hwyr yn sgwrsio, ond i gael eu deffro gyda'r wawr gan bla o wybed! Fe baciwyd y maes gwersylla yn gynnar yn y bore, ac fe ddilynwyd hyn gan weithgareddau darllen map.
Doedd y bobol ifanc ddim yn canfod hyn yn ddiddorol iawn; roedd mwy o ddiddordeb ganddynt mewn dysgu technegau hela a thrapio – mae'r wybodaeth hyn wedi ei borthi yn ôl i'r arweinydd ar gyfer sesiynau Goroesi WICKED yn y dyfodol.
Er y gwybed, bu'r adborth yn bositif!

<u>Adborth:</u>

Hoffterau - *"Adeiladu'r cysgod"*
"Defnyddio machete"
"Popeth"

Anhoffterau- *"Y gwybed; roeddent yn fy ngyrru'n benwan"*
"Cerdded"
"Dim byd"

4. Gweithgareddau Rheoli Coetir 2-ddiwrnod – fe ddychwelodd y bobol ifanc i goed Tyllwyd ar gyfer y gweithdy hwn. Ar fore'r diwrnod cyntaf fe arweiniwyd y grŵp drwy'r coed gan Bob Shaw, â'u cyflwynodd i'r canlynol:

- Sut i adnabod gwahanol goed,
- Dulliau gwahanol o reoli coetir,
- Pam fod coed o ddeunydd i'r amgylchfyd,
- Y modd mae coetiroedd yn cynnal bywyd natur,
- Y cynnyrch y gellid ei greu o'r gwahanol fathau o goed.

Roedd cadw sylw sawl un o'r bobol ifanc yn sialens yn ystod sesiwn y bore (mae gan lawer gyfnod sylw byr ar gyfer gweithgareddau sydd ddim yn ymarferol eu natur); eto'i gyd, fe gydiwyd yn ei dychymyg yn ystod sesiwn y prynhawn pan gawsont cyfle i gasglu coed a'u gweld yn cael eu prosesu ar y llif symudol.

Adeiladu cadair o'r pren a gasglwyd ar y diwrnod cyntaf oedd gweithgaredd yr ail ddiwrnod. I gyflawni hyn fe'u rhannwyd i dimau. Fe gwblhawyd y dasg yn gyflymach na'r disgwyl, rhoddodd hyn gyfle i'r grwpiau greu mwy o eitemau, a threulio mwy o amser yn gweithio ar y turn.
Adeiladwyd sawl eitem, gan gynnwys pibau, polion ystlys (ar gyfer canllaw ei dad-cu), stand het, a choes bwyall,
Cawsont ddychwelyd gartref gyda'i gwaith a synnwyr o gyrhaeddiad a balchder.

Adborth:

Hoffterau - *“Gwaith llaw”*

“gwneud coes i’m bwyell”
“Cerfio”
“Gwneud pethau”

Anhoffterau - *“Cerdded yn y coed”*
“Y glaw”
“llenwi’r ffurflenni a gwaith caled
“Roeddwn yn hoff o bopeth”

5. Gweithgareddau gweithgynhyrchu coed, deuddydd – cynhaliwyd y weithgaredd hon yng ngweithdy Coed Llambed, ar stad Ddiwydiannol Llanbedr pont Steffan.
Ar y diwrnod cyntaf gwelodd y bobol ifanc goeden swmpus yn cael ei phrosesu i blanciau gan lif Mizer. Defnyddiwyd yr ystyllod hyn i greu mainc ardd 2 sedd.
Defnyddiwyd offer fel cafnwr, plaeniwr, sgwriwr a dril llaw. Fe aeth pob cyfranogwr â mainc adref.
Roedd yn aml yn sialens i gadw ffocws y bobol ifanc, roedd hyn yn bennaf oherwydd fod yn rhaid iddynt aros yn amyneddgar i offer a goruchwylwyr cael eu rhyddháu.

Ers diwedd y sesiynau cyflwyniadol, mae Swyddog Gyrfaoedd Cymru yn cadw mewn cysylltiad â’r bobol ifanc i’w cefnogi a datblygu cynllun gyrfa. Mae Gwyneth hefyd wedi bod yn cynnig cymorth iddynt wrth ddilyn ei diddordebau:

- Mae un cyfranogwr nawr yn gweithio’n wirfoddol yng Ngholeg Coppicewood ger Cilgerran; mae’r coleg yn cynnig Diploma mewn Gwaith Coed Irlas, sy’n cychwyn yn yr Hydref.
- Mae un cyfranogwr wedi cysylltu â Choleg Aberteifi, gyda’r bwriad o ddilyn ei cwrs Cynllunio Celfi, sy’n cychwyn mis Medi.
- Mae un cyfranogwr wedi dangos diddordeb mewn mynychu cwrs gwirfoddol a gynhelir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yng Nghors Caron.
- Mae un cyfranogwr, sydd yn iau na 15 mlwydd oed ac wedi ei ddiarddel o’r ysgol, wedi ei gyfeirio i raglen Coed Call Tir Coed o fis Medi ymlaen.

Mae Gwyneth hefyd yn sefydlu cwrs pedwar diwrnod i ffocysu ar adeiladu celfi, i'w arwain gan Bob Shaw, ar gyfer 4 o'r cyfranogion a ddangosodd diddordeb. Mi fydd y cwrs hwn yn rhedeg mewn partneriaeth â rhaglen "Dysgu Gyda'n Gilydd" Prifysgol Aberystwyth. Ein hamcan yw cynnig cymhwyster RhCA fel rhan o'r cwrs.

NÔD	**CYRHAEDDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, mi adeiladodd yr 8 cyfranogwr o leiaf 4 eitem yr un.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru cyflwyno eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Do – mae tystiolaeth fideo o'r bobol ifanc yn disgrifio beth a adeiladon a'r dulliau a ddefnyddiwyd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, cyfartaledd presenoldeb yr holl gyfranogwyr oedd 86.5%	roedd 4 o'r cyfranogion yn bresennol 100% o'r amser
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos cynnydd yn eu hymwybyddiaeth amgylcheddol:		
Cyfranogwyr yn medru enwi o leiaf un math o goeden	Do, mi lwyddodd pob un enwi o leiaf un rhywogaeth o goed	
Cyfranogwyr yn gwybod bod coedwigoedd yn cynnal bywyd gwyllt – yn medru enwi o leiaf un math o anifail y goedwig	Do, mi lwyddodd pob un i enwi o leiaf un math o ffawna	
Mae cyfranogwyr yn ymwybodol am o leiaf un modd y mae coetiroedd o ddeunydd i'r amgylchfyd	Oeddent, mi oedd pob cyfranogwr yn ymwybodol o un modd roedd coed o ddeunydd i'r amgylchedd	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn ei hiechyd a'u lles:		
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn teimlo'n hapusach ar ddiwedd gweithgaredd y Prosiect	Ni gwblhaodd 3 cyfranogwr ffurflen hunan asesiad. Eto'i gyd, roedd y 5 arall yn teimlo'n hapusach	
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn bwriadu mynychu gweithgareddau iachus tebyg yn y dyfodol	Do, roedd 100% o'r cyfranogwyr eisiau dilyn mwy o weithgareddau coedwigaeth	
Sgiliau gwell yn arwain at gyfleoedd gwaith gwell i'r bobl ifanc:		

O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn derbyn achredaeth	5 o 8 wedi dangos diddordeb mewn ennill cymwysterau	Bydd mwy o wybodaeth ar y nôd hwn yn yr adroddiad nesaf
O leiaf 60% o'r cyfranogwyr yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygaeth gyrfa	Do, roedd pob cyfranogwr yn bresennol 86.5% o'r amser	
O leiaf 25% o'r cyfranogwyr yn symud ymlaen i hyfforddiant pellach neu swydd	Mae 5 o 8 o'r cyfranogwyr yn dangos diddordeb mewn hyfforddiant pellach	Bydd adroddiad pellach ar y nôd hwn yn adroddiad is nesaf

Adborth yr hyfforddwyr:
" Roedd yn ymddangos bod yr holl gyfranogwyr yn ffocysu ar y tasgau yn gyflym ac yn frwdfrydig– roedd yn go rhwydd gweithio gyda'r bobol ifanc – roedd y rhan fwyaf yn frwdfrydig i ddysgu sut i ddefnyddio offer ac i weithredu'r technegau a ddysgon."

"Roedd yn wych gweld cynnydd yn hunan hyder y bobol ifanc, yn enwedig yng nghyd-destun yr amser a hyfforddiant oedd yn angenrheidiol."

"Fe ddangosodd pob grŵp wellhad yn ei Hymwybyddiaeth Amgylcheddol ac, yn wir, yn ei hymwybyddiaeth lleoliadol yn ystod yr wythnos. Mae lefel eu hyder wedi tyfu wrth ir wythnos basio a wrth i'r strwythur ddatblygu."

"Roedd cynnydd i'w weld yn raddol. Roedd rhai cyfranogwyr yn frwdfrydig iawn ac yn cymeryd at rhai gweithgareddau, e.e. roedd "X" yn wych gyda'r gŷn, ac roedd "Y" yn dangos mwynhad mawr wrth weithio gyda'r tyrnsgriw drydanol. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn hoffus iawn, ac yn egniol iawn; maent angen parch, dealltwriaeth ac, yn bennaf, rhywbeth i wneud! Fe fwynheais ei hegni a'i digrifwch!"

Adborth gan Weithwyr Cynorthwyol:
"Fe sylwais fod yr holl gyfranogwyr yn datblygu mwy o ddiddordeb yn y gweithgareddau wrth i'r sesiynau datblygu."

"Fe ddatblygodd y grŵp rwymedigaeth yn gyflym. Roedd yn anodd enyn brwdfrydedd yn is-grwpiau "A", "B", ac "C". Ond daeth yn haws pan nad oedd "C" yn bresennol.
Fe wrthododd "X", "Y" a "Z" adael ar y diwrnod olaf nes iddynt orffen ei gwaith – anhygoel! Roedd pob grŵp yn frwdfrydig iawn wrth rannu storiâu a phrofiadau, ac yn aml roeddent yn trafod gwahaniaethau barn yn rhesymol ac yn gwrtais. Nid oedd drwg deimlad o gwbwl.

" Rwyf wedi adnabod xxxx ers dros 2 flynedd, wedi iddo gael ei faethu gan deulu lleol. Mae wedi ei ddiarddel o'r ysgol, yn dioddef o ADHD, ac wedi cael problemau hir dymor wrth ddelio a addysg gonfensiynol."
Ers cychwyn ar brosiect WICKED *mae wedi dangos gwellhad yn ei allu i ganolbwyntio ac i orffen tasgau. Mae'n edrych ymlaen i sesiynau, ac rwyf yn gobeithio y gallwn gario mlaen i'w gefnogi yn y dyfodol. Rwyf i, a staff eraill, wedi nodi sawl newid positif arall yn ei ymddygiad a'i agwedd, ac yn sicr mai'r rhaglen sy'n gyfrifol am hyn."*

"Rwyf wedi bod yn gweithio â *ieuenctid ers dros 8 mlynedd, ac yn fwy penodol gyda phobl ifanc dadrithiedig am y 5 mlynedd ddiwethaf, ac heb os nac oni bai mae hwn yn un o'r prosiectau mwyaf positif rwyf wedi ymwneud ag ef. Bu'r allbynnau dysgu yn amlwg o'r cychwyn cyntaf, ac mi fyddwn yn falch o'r cyfle i weithio ar brosiectau tebyg yn y dyfodol."*

Sir Gâr:

Bu rhaglen Gweithio'r Goedwig Sir Gâr bron â chael ei gohirio cyn iddi dechrau. Er llawer o gynllunio efo Gyrfaoedd Cymru, y Gwasanaeth Ieuenctid a sawl asiantaeth arall, ni gyfeiriwyd unrhyw un i'r rhaglen tan y funud olaf. Fe gyfeiriwyd 4 person ifanc atom gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ychydig ddiwrnodau cyn i'r prosiect gychwyn. Ond, roedd y rhain dan wasgedd i fod yn bresennol ac nid oeddent yn frwdfrydig iawn. Ymunodd un gwr ifanc, o glwb ieuenctid 'Dr. Mz', â'r prosiect yn ei ail wythnos gan ddangos potensial. Ond, oherwydd diffyg diddordeb gan y cyfranogwyr eraill, fe dreuliodd tri gweithdy ar ben ei hun. Er iddo fwynhau'r rhain, yn enwedig y gwaith coed irlas, nid oedd am fod yn bresennol yn y bythefnos olynol. Yn ystod yr wythnosau nesaf bu 3 person ifanc, 15 mlwydd oed, o Uned Arbennig Cross Hands yn bresennol mewn gweithdy adeiladu meinciau. Roedd yn llwyddiannus iawn, ac fe ddaeth i sylw papur newydd *Carmarthen Journal*. Ond, gan fod amodau ei hyswiriant yn golygu mai ond pobol dros 16 mlwydd oed oedd yn cael cymeryd rhan, bu'n rhaid gohirio gweithdy cynnyrch pren *Foothold*.

Bum yn ffodus yn ystod yr ail wythnos i gael cefnogaeth gan 2 Swyddog Gyrfaoedd Cymru. Er ei hymdrechion i annog pobol ifanc i fynychu'r cyrsiau, mae'n drueni nad oedd mwy wedi cael ei cyfeirio atom.

1. Sialens Goroesi yn y Goedwig

Fe gynhaliwyd y sialens yng Nghoedwig Dyffryn Penllergaer, ger Abertawe, ac fe'i arweiniwyd gan Andrew Price o *Dryad Bushcraft*. Bu 2 aelod o'r tîm Troseddwyr Ifanc yn bresennol; ni ymddangosodd dau arall oedd wedi ei cyfeirio i'r rhaglen. Fe fwynheuodd y ddau y rhaglen, gan gynnig adborth positif. Mae'n debyg mai'r rheswm na gyfrannodd y ddau yn agweddau eraill y prosiect oedd mai dim ond diddordeb yn elfennau hyfforddiant goroesi y cwrs oedd ganddynt.

NÔD	**CYRHAEDIAD**	**SYLWADAU**
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, mi gerfiodd y ddau lwy bren.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru cyflwyno eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Na –doedd dim camera fideo ar gael ar y pryd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, roeddent yn bresennol 100% o'r amser	

Adborth:
Hoffterau: "cerfio llwy bren"

Anhoffterau: "Pwysau'r bagiau"

2 Gwaith Coed Irlas

Fe gynhaliwyd y gweithdy yma yng Nghoedwig Woodhouse ger Sain Clêr, ac fe'i harweiniwyd gan Jamie Miller. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr yn bresennol ar y diwrnod cyntaf, felly fe ohiriwyd y cwrs. Bu un person ifanc yn bresennol ar yr ail ddiwrnod. Fe gynhaliwyd y gweithdy gan 2 aelod o Staff Gyrfaoedd Cymru, ac fe fwynhaont y profiad gan ddangos diddordeb mewn cefnogi cynlluniau Gweithio'r Goedwig yn y dyfodol.

NÔD	CYRHAEDDIAD	SYLWADAU
O leiaf 60% o'r bobl ifanc yn ymddangos gwellhád yn eu hunanhyder a'u hunan-barch:		
Cyfranogwyr yn creu o leiaf un eitem â llaw.	Do, mi gerfiodd y ddau lwy bren.	
Mae'r cyfranogwyr yn medru cyflwyno eu barn am y goedwig, y weithgaredd a'u hunain ar recordiad fideo	Na –doedd dim camera fideo ar gael ar y pryd.	
90% o gyfranogwyr y weithgaredd yn bresennol am o leiaf 80% o'r amser.	Do, roeddent yn bresennol 100% o'r amser	

Sir Benfro

Bu 7 person ifanc yn bresennol yng ngweithgareddau Sir Benfro. Fe gyfeiriwyd 3 drwy Yrfaoedd Cymru, 3 drwy sefydliadau eraill ac roedd 1 yno ar ei liwt ei hun.
Roedd y gyfradd presenoldeb yn foddhaol iawn am y 12 sesiwn gyflwynol.

Gan fod Becky (sy'n gyfrifol am adrodd ar Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro) yn absennol, mi fydd adroddiad cyflawn ar gynllun Gweithio Eich Coedwigaeth Sir Benfro yn dilyn mor fuan a sy'n bosibl.

COED CALL

Hyfforddiant Gweithwyr Cynorthwyol

Fe hyfforddwyd 9 person a fydd yn ymwneud a chynnal prosiectau i bobol ifanc, 14-16 mlwydd oed, wedi ei seilio yn y goedwig fel rhan o fenter Coed Call.
Roedd y grŵp yn cynnwys:

- 1 aelod o Wasanaeth Cynhwysiad mewn Addysg Ceredigion,
- 1 gweithiwr cynorthwyol o Geredigion,
- 3 aelod o Wasanaeth Ieuenctid Sir Gaerfyrddin,
- 2 aelod o Uned Gyfeiriol Sir Benfro,
- 2 aelod o Wasanaeth Ieuenctid Sir Benfro.

Fe arweiniwyd yr hyfforddiant gan Mike a Sue Appleton (sesiynau 1-6), mae ganddynt brofiad eang o gynnal prosiectau yn seiliedig ar goedwigaeth ar gyfer pobol ifanc dan anfantais ac maent yn ddiweddar wedi arwain cyrsiau all-gwricwlwm yng Nghoed Pen yr Allt. Fe arweiniwyd sesiynau 7-9 gan Stefan Proszynsky a Chris Olley o grŵp gymunedol Nant y Cwm.
Fe ddatblygwyd y sesiynau a'r amcan i fathu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol yn y cyfranogwyr iddynt allu ymgymeryd a phrosiectau ehangach yn y dyfodol.

Fe strwythurwyd yr hyfforddiant fel hyn:

Sesiwn 1 -	Sut i ddefnyddio'r goedwig i enyn diddordeb pobol ifanc Rheolaeth maes gwersyll Asesiadau Risg Materion iechyd a diogelwch Rheoli tân gwersyll
Sesiwn 2 -	Trin offer yn ddiogel Gofal am offer Defnyddio troell a chaseg lyfnu Gwneud rac CD Gwneud bwrdd corc/drych
Sesiwn 3 -	Gwaith helyg unigol: Gwneud plannwr Gwneud plât Gwneud clwydi
Sesiwn 4 -	Gwaith grŵp helyg: Adeiladu cwrwgl Darlith ynglŷn a helyg byw
Sesiwn 5 -	Y Celfyddydau Naturiol: Pyrograffeg Cerfio Lliwio/farnaisio/paentio
Sesiwn 6 -	Gweithio â deunyddiau wedi ei hailgylchu: Gwneud offerynnau cerdd Gweu bagiau plastig Syniadau ysbrydoledig ar gyfer sesiynau ymarferol gyda phobol ifanc
Sesiwn 7 & 8 -	Gwaith coed Gwyrdd Gwneud caseg lyfnu

Sesiwn 9 - Gorffen unrhyw brosiect anorffenedig

Adborth gan y Cyfranogwyr:

Uchafbwyntiau:
"Dysgu cymaint o dechnegau a sgiliau gwaith coed."
"Mi ddysgon bethwmbreth bob wythnos, ac mi gawsom gyfle i ymlacio hefyd."
"Adeiladu cwrwgl a chaseg lyfnu."
"Gweithio yn y goedwig gyda grŵp wych o bobol, pob un ohonynt yn frwdfrydig. Gweithio efo'r hyfforddwyr, Sue a Mike. Gwneud y fath amrywiaeth o bethau o bren."
"…pan welais yr amserlen, fe feddyliais nad oedd unrhyw obaith i'r grŵp gwblhau'r holl weithgareddau –ond fe lwyddon!"

Is bwyntiau:

"Roedd amser yn brin – yn enwedig ar y gaseg lyfnu – gan roi naws frysiog i rai gweithgareddau. Ond fe fwynheais y cwbwl, felly does dim gwir isafbwynt."
"Y dyddiau gwlyb a drewi fel coelcerth."
"Methu 2 sesiwn."
"Diwedd y cwrs a methu gorffen rhai o'n prosiectau."
"Yr amser cychwyn, ac aros i'r holl gyfranogwyr gyrraedd."
"Glaw mis Gorffennaf, dim digon o oriau yn y diwrnod."

Oedd y lefel o hyfforddiant yn ddigonol i'ch galluogi i arwain prosiect a chwricwlwm ehangach?
"Oedd, sylfaen gadarn o wybodaeth."
"Oedd, lawer o syniadau a sgiliau i ddatblygu prosiect."
"Oedd i raddau, ond roedd popeth yn go arwynebol – wrth gwrs, roedd hyn yn anorfod oherwydd maint y grwpiau a'r amser oedd ar gael, ayb. Rwy'n teimlo mod i wedi dysgu tipyn; ond nid wyf yn arbenigwr o bell ffordd! Mae'n sgiliau offer braidd yn wan. Eto'i gyd, rwy'n gwybod gymaint yn fwy nac o'r blaen, ac mi ddefnyddiaf yr hyn rwyf wedi ddysgu mor aml a phosib."
"Credaf fod y cwrs wedi rhoi sylfaen gadarn; ond mi all pawb ennill gyda mwy o hyfforddiant."

Mi fydd Tit Coed yn darparu'r canlynol i brosiectau Coed Call blwyddyn academaidd 2007-08:

- Cost llogi'r maes (1 diwrnod yr wythnos, £30 punt y diwrnod),
- Deunyddiau, £10 y pen i bob sesiwn, yn seiliedig ar grŵp o 6 cyfranogwr,
- Hyfforddwyr arbenigol i ddatblygu sgiliau'r Arweinwyr Prosiect a'r bobol ifanc (yn seiliedig ar anghenion penodol y grwpiau) am 3 sesiwn bob tymor,
- Hyfforddiant cymorth cyntaf i Arweinwyr Prosiect (os yw'n berthnasol)

Mi brynwyd stoc o offer ar gyfer y sesiynau hyfforddi. Mi fydd yr offer hyn, ynghyd a'r cesig llyfnu a adeiladwyd gan y cyfranogwyr, yn cael eu dosbarthu ymysg prosiectau Coed Call sy'n cychwyn yn siroedd Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gâr, mis Medi 2007.
Cynhelir prosiect Ceredigion yng Nghoedwig Pen yr Allt, ger Cei Newydd.
Mi fydd prosiect Sir Gaerfyrddin yn rhedeg yng Nghoed Woodhouse, Sain Clêr.

Mae'n bosib y bydd 2 brosiect Coed Call yn rhedeg yn Sir Benfro, un yn cael ei arwain gan yr Adran Cyfeirio Disgyblion (efallai yng Nghoedwig Nant y Cwm) a'r llall gan y gwasanaeth Ieuenctid yn Ne'r Sir.
Bydd y prosiectau'n rhedeg am un diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol.

Oherwydd absenoldeb hirdymor swyddog Cynhwysedd Cymdeithasol Powys (oherwydd salwch), ynghŷd ag ad-drefni sylweddol yn strwythur personél Cyngor Sir Powys, mae wedi bod yn amhosibl hyd yn hyn i sefydlu menter Coed Call ym Mhowys. Mae Gwyneth yn ceisio datblygu cysylltiadau newydd i hyrwyddo'r prosiect cyn gynted â bo'r modd.

DIWEDD YR ADRODDIAD.